Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed o Orffennaf am 7.30.

Presennol oedd Menai Hughes, Ffuon Williams, Prys Ellis, Einion Edwards a Llio Morris fel cadeirydd.
Cafwyd ymddiheuriadau gan Maria Roberts, Guto Jones, Dyfan Jones, John Jones a Cyng Gwennol Ellis.
Datgan diddordeb – mynegodd Llio Morris ei diddordeb i anfoneb Rheinallt Jones, am waith ffensio a gosod giat yn y Parc Chwarae.
Darllenwyd y cofnodion ac fe 'u h arwyddwyd yn gywir.
Gohebiaeth
[1] Cyfarfod Traffic ger Ysgol Cerrig y Drudion – nodiadau gan ein Cyng Gwennol Ellis gyda beth a drafodwyd gyda'r swyddogion Sir Conwy adran ffyrdd, Rhieni a staff yr Ysgol ynghyd a cynyrchiolaeth y Cyngor cymuned a Cyngh Gwennol Ellis.
[1.1] Helen Willams – llythyr ar ran y ieuencid Cerrig yn gofyn am gael gosod rhwydi yn y goliau yn Parc Cae Llwyd a postyn rygbi, y clerc wedi cysylltu i ddweud ein bod wedi ceisio am Arian Grant i adnewyddu'r Parc ac yn dal i aros am ymateb ir cais os ydym wedi bod yn llwyddiannus.
[1.2] Ffurflen flynnyddol ar gyfer flwyddyn daeth i ben ar 31 Mawrth 2025. Trafodwyd y ffurflen arianol yn dilyn archwiliad mewnol ac roedd pawb yn gytun iw cymeradwyo cyn ei ei gyrru mlaen ir Archwilwyr Allan Llawn am ymchwiliad.
[1.3] Emyr Mortimer anfoneb an wneud y gwaith archwilio mewnnol £480.00. pasiwyd iw dalu.
[1.4] Emyr Mortimer daeth cais gan y cyfrifydd sydd yn llogi yr ystafell plwyf ar fore Iau ei fod yn awyddus i logi am y diwrnod os oedd posib cael y canlynnol yno sef Soced Trydan ychwanegol, mynediad ir rhyngrwyd, blwch postio dan glo – pasiwyd i ofyn i Dyfan Jones am bris i wneud y gwaith trydan ar clerc i wneud ymoliadau am brisiau mynediad ir rhyngrwyd a roi caniatad ir cyfrifydd osod blwch postio ei hun.
[1.5] Rheinallt Jones – cafwyd pris am waith ffensio i wneud y ffens a giat yn y parc chwarae trafodwyd hyn cyn ein cyfarfod ac roedd pawb yn gytun i wneud y gwaith, sef £565.00, gan ei fod yn fater o frys a diogelwch.
[1.6] Yswiriant Clear Council anfoneb sef £1,063.93 pasiwyd iw dalu.
[1.7] Dafydd Roberts - anfoneb am ddau focs blodau ir pentref £160.00. pasiwyd iw dalu.
[1.8] Haydn Roberts anfoneb am dori gwair yn y fynwent Eglwys, Tyn Rhyd a llwybr ir A5 dau fis Mai a Mehefin £500.00 pasiwyd iw dalu.
[1.9] Marc Roberts Consultancy – anfoneb am wneud gwaith grantiau ir Toiledau ar Parc Chwarae £1,080.00 pasiwyd iw dalu.
[2] Congor Conwy anfoneb am gyfraniad i gefnogi gwasanaeth LLyfrgell Uwchaled. £1,250.00 pasiwyd iw dalu.
[2.1] Fflam Eryri anfoneb am gwasanaeth ir boiler yn yr Ystafell Plwyf £132.00 pasiwyd iw dalu.
[2.2] Dwr Cymru - Anfoneb am £18.20 wedi ei dalu DD
[2.3] Scottish Power – anfoneb am £26.32 wedi ei dalu DD
[2.4] Carol Humphreys anfoneb am fodau ir bosus blodau yn y pentref. £142.34 pasiwyd iw dalu.
[2.5] Rheianllt Jones – anfoneb am waith ffensio £678.00 pasiwyd iw dalu.
[2.6] Vale of Clwyd Memorial – taliad am ychwanegu enw y diweddar Edgar Price £20.00.
[2.7] Vale of Clwyd Memorial – taliad am osod Carreg fedd y diweddar Gwenda Mary Jones £50.00.
Unrhyw fater arall –
[2.8] Trydan Gwyrdd Cymru – cafwyd llythyr gydadynt yn cyflwyno eu hunain ir prosect cynllun fferm wynt newydd Clocaenog Dau o fewn Coedwigaeth Clocaenog.

[2.9]  Unllais Cymru  rhestr o hyfforddaint weminar  wedi ei nodi.
[3]  Cyngor B Sirol Conwy  - cafwyd cwyn am ddwr yn hel ger y domen halen ar A5  clerc i gysylltu ar Cyngor.